

**AMGUEDDFA
CYMRU**



**ADOLYGIAD BLYNYDDOL
ANNUAL REVIEW
2023-24**

amgueddfa.cymru
museum.wales



Cymryd rhan mewn gweithgareddau Gwersyll Llangfilwyr yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**.

Taking part in Roman Army Bootcamp activities at **National Roman Legion Museum**.

MAE AMGUEDDFA CYMRU YN PERTHYN I BAWB

Mae ein Hadolygiad Blynyddol yn dathlu cyrhaeddiadau Amgueddfa Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn gyntaf, diolch yn fawr i'n staff a'n gwirfoddolwyr, ddoe a heddiw, am eu gwaith caled a'u cefnogaeth drwy flwyddyn ariannol heriol; diolch i'r bobl a'r cymunedau sydd wedi ymuno â ni yn ystod y flwyddyn; a diolch i'r rhai sydd wedi'n cefnogi ni mewn cynifer o ffyrdd.

Mae ein gwaith ni'n hanfodol i ddiwylliant Cymru, drwy ddarparu projectau a rhaglenni gyda ac ar gyfer cymunedau. Rydyn ni wedi cael cyfle gwych i groesawu dros 1.56 miliwn o bobl i'n hamgueddfeydd a 2.5 miliwn o ymweliadau i'n gwefan.

Mae gennym ni brojectau newydd o bwys yn yr arfaeth ar draws ein holl safleoedd gan gynnwys agor Gwesty'r Vulcan yn Sain Ffagan, ac ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. Rydyn ni hefyd wedi croesawu nifer o Ymddiriedolwyr newydd i'n harwain drwy'r gwaith cyffrous hwn, gan gynnwys Cadeirydd newydd, Kate Eden, ac Is-gadeirydd newydd, Rhys Evans.

Rydyn ni'n gwybod mai braint aruthrol yw bod yn rhan o brofiadau cynifer o bobl, a gobeithio y byddwch chi'n parhau i'n cefnogi ac i ymweld â ni dros y flwyddyn nesaf.

AMGUEDDFA CYMRU - MUSEUM WALES BELONGS TO EVERYONE.

Our Annual Review celebrates what Amgueddfa Cymru – Museum Wales has achieved over the last year.

Firstly, a huge diolch yn fawr – thank you to staff and volunteers, past and present, for their hard work and support through what has been a challenging financial year; to people and communities who've joined us throughout the year; and to those who've supported us in so many ways.

The work we do is vital to the culture of Wales, through the delivery of projects and programmes with - and for - communities. We've had the fantastic opportunity to welcome over 1.56 million people to our museums and 2.5 million digital visits.

We have some landmark new projects on the horizon across all our sites including the opening of The Vulcan Hotel at St Fagans, and the re-development of the National Slate Museum in Llanberis. We've also welcomed several new Trustees to lead us through this exciting work, including a new Chair, Kate Eden, and a new Vice-Chair, Rhys Evans.

We know it's a huge privilege to be part of so many people's experiences, and we hope you will continue to support us and visit us over the next year.



Diolch yn fawr.

Jane Richardson

Prif Weithredwr / Chief Executive



Mae arddangosfa *Hawlio Heddwch* yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** yn amlygu straeon menywod Cymru oedd yn galw am ddyfodol heb ryfel.

The *Petitioning for Peace* exhibition at **St Fagans National Museum of History** highlights the stories of women of Wales who demanded a future free from war.

2023-2024 BLWYDDYN MEWN RHIFAU A YEAR IN NUMBERS

Diolch o galon i bawb sydd wedi ymweld â ni, wedi'n cefnogi ni, neu wedi gweithio gyda ni eleni i'n helpu i ysbrydoli pawb drwy adrodd hanes Cymru.

Diolch o galon – to everyone who's visited, supported or worked with us this year, helping us inspire everyone through Wales' story.

1,565,551

Mwy nag 1.56 miliwn o ymwelwyr wedi'u croesawu i Amgueddfa Cymru.

Over 1.56 million visitors welcomed to Amgueddfa Cymru.

5.3

5.3 miliwn o wrthrychau ac atgofion yng nghasgliad cenedlaethol Cymru o gelf, hanes a gwyddoniaeth sy'n cael eu defnyddio i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

5.3 million objects and memories in Wales' national collections of art, history and science used to inspire future generations.

2,569,836

Dros 2.5 miliwn o ymweliadau â'r wefan a 211,428 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Over 2.5 million website visits and 211,428 social media followers.

34,630

Mae 821 o wirfoddolwyr wedi rhoi 34,630 o oriau o'u hamser i Amgueddfa Cymru.

821 volunteers donated 34,630 hours of their time to Amgueddfa Cymru.

229

Mae pobl mewn 229 o leoliadau ar draws y byd wedi ymweld â'n gwefan.

People in 229 locations across the world have visited our website.

58%

Mae 58% o'n gweithlu yn medru rhywfaint o Gymraeg, gan gynnwys 26% sy'n rhugl.

58% of our workforce have Welsh language skills, including 26% who are fluent.

19
22

Mae eitemau o'n casgliadau wedi'u benthg i leoliadau a sefydliadau mewn 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Our collections have been loaned to venues and organisations in 19 of the 22 Local Authorities in Wales.

287,942

287,942 o blant a phobl ifanc wedi ymwneud â'n rhaglen addysg mewn ysgolion.

287,942 children and young people engaged with our school-based learning programme.

10

10 project ymchwil ym meysydd celf, hanes a gwyddoniaeth.

10 research projects covering art, history and science.

1^{AF} / 1ST

1^{af} – Sain Ffagan yw'r diwrnod allan am ddim gorau yn y Deyrnas Unedig (Which?) a Big Pit yw'r amgueddfa am ddim orau yn y Deyrnas Unedig (TimeOut).

1st – St Fagans is best UK day out for free (Which?) and Big Pit is best free UK museum (TimeOut).

Diolch i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Paul Hamlyn, chwaraewyr y People's Postcode Lottery, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhoddion gan ein hymwelwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau, aelodau, noddwyr, rhoddwyr unigol a busnesau corfforaethol am gefnogi ein gwaith. Diolch i bawb sydd wedi gwario yn ein caffis, ein siopau, ein harddangosfeydd a'n profiadau – mae eich cyfraniad chi yn helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb.

Diolch to National Lottery Heritage Fund, Paul Hamlyn Foundation, the players of People's Postcode Lottery, National Lottery Community Fund and the Welsh Government, as well as donations and gifts from our visitors, trusts and foundations, members, patrons, individual donors and corporate businesses for supporting our work. Diolch to everyone who purchased in our cafés, shops, exhibitions and experiences – your contribution helps ensure that Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to use.

339

Mae 339 o aelodau o'n staff wedi cwblhau'n hyfforddiant llythrennedd carbon dwyieithog hyd yn hyn.

339 staff have completed our bilingual carbon literacy training so far.

ARIAN SILVER

Mae gennym ni achrediad arian gan y Sefydliad Llythrennedd Carbon.

Silver accredited carbon literate organisation.



Statws arian Buddsoddwyr mewn Pobl.

Silver Investors in People status.



Yr artist Pauline Evans o Grŵp Celf Weledol Dowlais yn rhannu ei dehongliad o baentiad Heinz Koppel, *Melan Merthyr*, sy'n cael ei arddangos yn Llyfrgell Dowlais yn rhan o broiect **Ail-ddweud Stori'r Cymoedd**.

Artist Pauline Evans from the Dowlais Visual Art Group, shares her interpretation of Heinz Koppel's painting *Merthyr Blues* exhibited at Dowlais Library as part of the **Valleys Re-Told project**.



Cynhaliodd y **Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol** ddiwrnod agored i ddatlu ei phen-blwydd yn 25 oed.

The **National Collections Centre** held an open day in celebration of its 25th Anniversary.

Rydyn ni'n elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, sydd oll wedi'u lleoli ar draws Cymru.

Mae ein croeso am ddim diolch i nawdd Llywodraeth Cymru ac rydyn ni yma i bawb o bob cymuned.


Ond rydyn ni'n fwy nag adeiladau yn unig. Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol pwysig sy'n ymestyn tu hwnt i'w milltir sgwâr.

Amgueddfa Cymru is a charity, and a family of seven national museums and a collections centre located across Wales.

Our welcome is free, thanks to funding from the Welsh Government, and extends to people from all communities.

But we're more than our buildings. Our museums are vital community spaces that reach far beyond their location on a map.

- 1 **Amgueddfa Lechi Cymru**
National Slate Museum
- 2 **Amgueddfa Wlân Cymru**
National Wool Museum
- 3 **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
National Waterfront Museum
- 4 **Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol**
National Collections Centre
- 5 **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**
St Fagans National Museum of History
- 6 **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
National Museum Cardiff
- 7 **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**
National Roman Legion Museum
- 8 **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**
Big Pit National Coal Museum



I helpu i gynllunio'ch ymweliad, ewch i **amgueddfa.cymru**

Dilynwch ni **@AmgueddfaCymru**



To help plan your visit, go to **museum.wales**

Follow us **@MuseumWales**



Arddangosfa **Teulu** yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n cynnwys eitemau o'n casgliad celf cenedlaethol ar y cyd â chasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Ysgol Gelf, Amgueddfa ac Oriolau, Prifysgol Aberystwyth.

The **Teulu (Family)** exhibition at Aberystwyth Arts Centre, including items from our national art collection together with the National Library of Wales and the School of Art, Museum and Galleries, Aberystwyth University.

© Emma Goldsmith









Gweithdai Lliwio ar Lechi yn **Amgueddfa Lechi Cymru**.

Decorating a Slate craft workshops at the **National Slate Museum**.

Amgueddfa Cymru i bawb...

Dros yr ychydig dudalennau nesaf, cewch weld sut rydyn ni'n dod â Strategaeth 2030 yn fyw.

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gyda phobl a chymunedau dros Gymru, drwy ein casgliadau, rhaglenni cyhoeddus a phartneriaethau, i wneud y canlynol:

-  cynrychioli pawb
-  ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes
-  diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
-  cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli
-  darganfod yr amgueddfa yn ddigidol
-  creu cysylltiadau ar draws y byd.

Rydyn ni am sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn lle i bawb, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r projectau rydyn ni'n eu cynnal a'r partneriaethau rydyn ni'n eu creu yno ar gyfer y tymor hir.







Rydyn ni'n cydweithio â sefydliadau eraill i ymestyn yn ehangach a rhoi gwell gwasanaethau i bobl. Rydyn ni hefyd yn cynnwys pobl a chymunedau lleol i helpu i rannu eu straeon.

Diben Amgueddfa Cymru yw casglu straeon y gorffennol a'u cadw yn y presennol er mwyn gwneud gwell dyfodol. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cefnogi'n staff i feithrin sgiliau, gofalu am gasgliadau'r genedl, ymateb i heriau amgylcheddol ac economaidd, a gweithio i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth i bawb.

Amgueddfa Cymru for all...

Over the next few pages, you'll see how we're bringing our Strategy 2030 to life.

We're committed to working with people and communities across Wales, through our collections, public programmes and partnerships, to:

-  make sure that everyone is represented
-  inspire creativity and learning for life
-  help protect and restore nature and our environment
-  support well-being through inspirational spaces and experiences
-  discover and explore the museum digitally
-  build global connections.

We want to make sure that Amgueddfa Cymru is for everyone, for present and future generations. The projects we run and the partnerships we create are for the long-term.

We're working with other organisations to reach wider and provide better services for people. We're also involving people and local communities to help share their stories.

Amgueddfa Cymru's purpose is to collect the stories of the past and hold them in the present to make a better future. It's vital therefore that we support our staff to develop skills, look after the nation's collections, respond to environmental and economic challenges, and work to ensure equality and diversity for all.



Amgueddfa Cymru yn ymuno â'r orymdaith yn rhan o Pride Abertawe.

Amgueddfa Cymru joins the parade as part of Swansea Pride.



Gweithion ni mewn partneriaeth a Phwyllgor Puja Cymru i gynnal Project Adfer Clai yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**.

We partnered with the Wales Puja Committee to run a Clay Restoration Project at **St Fagans National Museum of History**.

LLE I BAWB

Mae gweithio gyda chymunedau yn ein helpu i ddysgu am straeon pobl a rhannu mwy o'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pobl a chymunedau ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon wedi bod yn cydweithio â ni i greu straeon newydd am y casgliad celf weledol trwy broject Ail-ddweud Stori'r Cymoedd, gyda chefnogaeth Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn a thrwy Gymdeithas yr Amgueddfeydd. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, ymarferwyr creadigol a sefydliadau celf weledol, drwy broject Safbwynt(iau), i ddod â syniadau newydd i'r ffordd rydyn ni'n dehongli'n casgliadau.

Agorodd nifer o arddangosfeydd gwych ar draws ein hamgueddfeydd ni a'n hamgueddfeydd partner, gan roi cyfle i ddysgu mwy am ein casgliadau a rhannu straeon am gysylltiadau pobl â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys *On the Red Hill – Stori Gariad Reg a George* gan Mike Parker oedd yn arddangos ffotograffau o'u bywyd gyda'i gilydd ac *Ein Lleisiau Ni* sef project oedd â'r nod o gasglu a rhoi llais i straeon a phrofiadau LHDTC+.

Dim ond trwy greu perthnas gref â phobl a grwpiau lleol y mae modd cynnal ein digwyddiadau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys Dawnsio Dandiya i ddathlu gŵyl Hindŵaidd Dussehra a Diwrnod Treftadaeth Somaliaid Cymreig gyda Hynafiaid Somali, Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange a Kayd Somali Arts and Culture i ddathlu Menywod Somali.

FOR EVERYONE



Working with communities helps us to learn about people's stories and share more of what matters most to them.

Over the past few years, people and communities in Merthyr Tydfil and the Cynon Valley have been working with us to create new stories about the visual art collection through The Valleys Re-told project, supported by the Esmée Fairbairn Collections Fund and delivered by the Museums Association. We've also been working with Arts Council Wales, creative practitioners and visual arts organisations, through the Safbwynt(iau)/Perspective(s) project, to bring new ideas to the way we interpret our collections.

Several fantastic exhibitions opened across our museums and partner museums, providing an opportunity to find out more about our collections and share stories of people's connections to them. These included Mike Parker's *On the Red Hill – A Love Story of Reg and George* exhibiting photographs of their life together and *Ours to Tell*, a project aimed to collect and amplify LGBTQ+ lives and experiences.

The community events we run are only possible through creating strong relationships with local people and groups. These include Dandiya Dancing to celebrate the Hindu festival Dussehra and a Welsh Somali Heritage Day with Somali Elders, Grangetown Pavilion Youth Forum and Kayd Somali Arts and Culture celebrating Somali Women.



Dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiad Gladiator i ddysgu am fywyd yn ystod yr Ymerodraeth Rufeinig yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**.

Learners participate in a Gladiators event to discover more about life during the Roman Empire at **National Roman Legion Museum**.

DYSGU A CHREU

Mae ein rhaglen addysg ac ymgysylltu yn parhau i roi cyfleoedd ysbrydoledig ac amrywiol i ddysgwyr o bob oed.

Mae ein rhaglen addysg wedi cyrraedd bron 288,000 o ddysgwyr ar draws ein hamgueddfeydd! Mae ein tudalennau gwe Dysgu newydd yn darparu adnoddau i ddysgwyr o archwilio hanes a lleisiau'r Genhedlaeth Windrush yng Nghymru, i gefnogi ymweliadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau rhithwir, gan gynnwys *Hawlio Heddwch*.

Roedd ein rhaglen ddigwyddiadau yn cynnwys Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Nosweithiau Calan Gaeaf yn Sain Ffagan, a rhaglen dymhorol o ddigwyddiadau Nadolig a gynhaliwyd ar draws pob amgueddfa. Roedd yr Ŵyl Fwyd flynyddol yn Sain Ffagan yn llwyddiant ysgubol gan ddathlu cynnyrch gorau Cymru a chroesawu'r nifer uchaf o ymwelwyr eto.

Fe wnaeth ein gwirfoddolwyr ein cefnogi gyda bron 35,000 o oriau o'u hamser eleni – diolch yn fawr! Rydyn ninnau yn ein tro yn cefnogi pobl ifanc drwy gyfrwng lleoliadau myfyrwyr a lleoliadau datblygu sgiliau, yn ogystal â chyfleoedd prentisiaeth yn Big Pit ac Amgueddfa Wlân Cymru, lle rydyn ni hefyd yn datblygu sgiliau gwehyddu mewnol trwy Felin Teifi. Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, rydyn ni'n gweithio gyda Pinc College i gefnogi pobl ifanc niwroamrywiol sydd heb fod mewn addysg brif ffrwd ers ychydig flynyddoedd.

LEARN AND CREATE



Our learning and engagement programme continues to provide inspiring and diverse opportunities for learners of all ages.

Our learning programme has reached nearly 288,000 learners across our museums! Our new Learn webpages provide resources for learners from exploring the history and voices of the Windrush Generation in Wales, to supporting in-person and virtual visits, including *Petitioning for Peace - Claiming Peace*.

Our events programme included Swansea Science Festival, in partnership with Swansea University, Halloween Nights at St Fagans, and a Christmas seasonal programme of events delivered across all museums. The annual Food Festival at St Fagans was a huge success celebrating the best of Welsh produce and welcoming the highest number of visitors yet.

Our volunteers supported us with nearly 35,000 hours of their time this year – diolch yn fawr! In turn, we're supporting young people with student and skills development placements, as well as with apprenticeship opportunities at Big Pit and National Wool Museum, where we're also developing in-house weaving skills through Melin Teifi. At National Museum Cardiff, we're working with Pinc College to support neurodiverse young people who have not attended mainstream learning provision for a few years.



Sgiliau traddodiadol yn cael eu harddangos yn **Amgueddfa Wlân Cymru**.

Traditional skills on show at **National Wool Museum**.



Dysgwyr yn creu ffosilau clai yn rhan o weithgareddau'r Wyl Archaeoleg yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**.

Learners create their own clay fossils as part of the Festival of Archaeology activities at **Big Pit National Coal Museum**.



Gwirfoddolwyr yn gofalu am ein gardd gynaliadwy GRAFT yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**.

Volunteers tend to our sustainable GRAFT garden at **National Waterfront Museum**.

BLAENORIAETHU'R BLANED

Rydyn ni'n gweithio gyda chymunedau i helpu i ddatblygu ein mannau gwyrdd, ac yn helpu staff ac ymwelwyr i fyw'n fwy cynaliadwy.

Ar draws ein hamgueddfeydd, mae ein mannau gwyrdd yn cefnogi bioamrywiaeth a chymunedau. Eleni, mae tair o'n hamgueddfeydd wedi ennill Gwobrau'r Faner Werdd am eu mannau gwyrdd o safon, sy'n cael eu rheoli gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

Mae project yr Ardd Gudd yn Sain Ffagan, sy'n cael ei ariannu gan Grant Gwirfoddoli Cymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn cefnogi oedolion ag anableddau dysgu. Mae project gardd a bwyd cymunedol GRAFT yn Abertawe yn helpu cymunedau i dyfu gyda'i gilydd, ac mae llawer o grwpiau yn ymweld â'r Ddôl Drefol yng Nghaerdydd i ddysgu am fioamrywiaeth drefol.

Mae project gwyh Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion, sydd wedi'i gefnogi gan Ymddiriedolaeth Edina, yn dal i dyfu, gydag ysgolion ledled y Deyrnas Unedig yn cymryd rhan i fonitro newidiadau ym mhatriymau twf planhigion.

Y tu ôl i'r llenni, rydyn ni wrthi'n gwella'r gweithrediadau ar ein safleoedd, gan leihau ein hallyriadau carbon a sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae ein curaduron a'n gwyddonwyr yn gweithio i ddeall a rhannu mwy am ein byd naturiol. Ac rydyn ni'n llawn cyffro ein bod wedi derbyn Gwobr Arian yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, wrth i ni barhau i ddarparu hyfforddiant i rymuso ein staff i weithredu'n gadarnhaol.

PUT THE PLANET FIRST



We're working with communities to help develop our green spaces and supporting staff and visitors to live more sustainably.

Across our museums, our green spaces support biodiversity and communities. This year, three of our museums have achieved Green Flag Awards for their high-quality green spaces managed by voluntary and community groups.

The Secret Garden project at St Fagans, funded by the WCVA's Volunteering Wales Grant, is supporting adults with learning disabilities. The GRAFT community garden and food project in Swansea supports communities to grow together, and the Urban Meadow in Cardiff is visited by many groups to learn about urban biodiversity.

The fantastic Spring Bulbs for Schools project, supported by the Edina Trust, continues to grow, with schools across the UK taking part in monitoring changes in the growth patterns of plants.

Behind-the-scenes, we're improving our site operations, reducing our carbon emissions and ensuring we are fit for the future. Our curators and scientists are working to understand and share more about our natural world. And we're excited to have received a Carbon Literacy Trust Silver Award, as we continue to deliver training to empower our staff to positive action.



Gwarchod crefft y gof drwy gyfleoedd Lleoliad Gwaith yn **Amgueddfa Lechi Cymru**.

Preserving the craft of Blacksmithing through our Work Placement opportunities at **National Slate Museum**.



“Mae GRAFT yn stori yn ei hun, stori am harddwch, am wneud Abertawe yn lle mwy deniadol, am greu cysylltiadau drwy waith tîm a chyfeillgarwch, ac am roi gyda chalon lawen, nid am ennyd neu am dymor, ond i greu rhywbeth parhaol ar gyfer y gymuned.”

Anca Polgar, rhan o broject GRAFT

“GRAFT itself is a story, about beauty, about enhancing the charm of Swansea, about connections through teamwork and friendship, about giving with a happy heart, not for a moment or a season, but creating a legacy for the community.”

Anca Polgar, GRAFT participant



“Bob tro fyddwn ni’n dychwelyd, rydyn ni’n canfod rhywbeth newydd, ac weithiau mae’n rhywbeth cwbl ryfeddol. Megis dechrau yw hyn, ac rydyn ni’n edrych ymlaen at weld beth ddaw nesaf!”

Dr Joe Botting ar ddarganfod ffosiliau Craig y Castell

“Every time we go back, we find something new, and sometimes it’s something truly extraordinary... This is just the beginning, and we’re excited to see what comes next!”

Dr Joe Botting on the discovery of Castle Bank fossils

EICH STORI CHI YW EIN STORI NI. WE CAN'T TELL WALES' STORY WITHOUT YOU.



“Mae datblygu'r daith LHDTG+ yn Sain Ffagan wedi bod yn brofiad gwych... Dyma'r math o beth byddwn i wedi hoffi gweld pan oeddwn i yn fy arddegau, felly roedd yn fraint cael y cyfle i'w ddatblygu.”

Reg, Cynhyrchydd Amgueddfa Cymru

“Developing the LGBTQ+ tour of St Fagans has been such a fun experience... It's the type of thing I would've loved to exist when I was a teenager, so I was honoured to work on developing it.”

Reg, Amgueddfa Cymru producer



“Mi wnes i fwynhau'r sgwrs am yr Amgueddfa a'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Gall dyddiau Sul fod yn unig iawn felly mae cael te parti Re-engage yn codi calon ac yn rhywbeth i edrych ymlaen ato.”

Rita; un o'r cyfranogwr yn nhe partis Re-engage ar gyfer pobl hŷn.

“I really enjoyed the talk about the Museum and the work they are doing. Sundays can be really lonely so having a Re-engage tea is such a joy and something to look forward to.”

Rita; participant in the Re-engage tea parties for older people



“Rydw i wrth fy modd yn gweld pa mor rhwydd a thryloyw mae'r casgliad hefyd, am adnodd gwerthfawr ar gyfer ymchwilio a dysgu.”

Sylw ar Celf ar y Cyd

“I love how easy and transparent the collection is too, what a resource for researching and learning.”

Comment on Celf ar y Cyd



“Mae bod yn rhan o'r rhaglen Cymrodyr Ymchwil Anrhydeddus wedi bod yn brofiad cyfoethog i mi. Fel person nad yw'n academydd sy'n gweithio ym maes cynhyrchu teledu, mae'r cyfle hwn wedi rhoi mewnwelediad a mynediad unigryw i fyd na fyddwn i fel arfer yn cael cyfle i'w archwilio.”

Mo Jannah, Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus.

“Being a part of the HRF programme has been a truly enriching experience for me. As a non-academic in the field of television production, this opportunity has provided me with unique insights and access to a world that I wouldn't typically have access to.”

Mo Jannah, Honorary Research Fellow



Croesawon ni ŵyl gerddoriaeth Gymraeg, Gŵyl Tawe i **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**, Abertawe mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Celfyddydau Cymru a Choleg Gŵyr Abertawe.

We hosted the Welsh Language Music Festival, Gŵyl Tawe at **National Waterfront Museum** Swansea, in partnership with Menter Iaith Abertawe, Swansea Council, the Arts Council of Wales and Gower College.

© Menter Iaith Abertawe



Grŵp yn ymweld â **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru** ar gyfer taith danddaearol dementia-gyfeillgar yn rhan o Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion, project partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer's.

Group visiting **Big Pit National Coal Museum** for a dementia-friendly underground tour as part of the Museums Inspiring Memories project, a partnership with the Alzheimer's Society.

CEFNOGI LLES

Rydyn ni wrthi'n datblygu ein gofodau a'n rhaglenni i roi gwell mynediad i bobl ag anghenion amrywiol.

Mae Amgueddfa Cymru wrthi'n newid! Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn cael ei thrawsnewid dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn adrodd hanes treftadaeth llechi'r Gogledd yn well. Eleni rydyn ni wedi bod yn clywed beth hoffai pobl a chymunedau ei weld yn yr ailddatblygiad.

Enillodd Amgueddfa Wlân Cymru wobwr y Gymuned Wlân Orau yn yr Eisteddfod Wlân gyntaf ym mis Hydref 2023 ac mae wedi bod yn ailddatblygu Melin Teifi ar ôl iddi gael ei hychwanegu at y casgliad yn ddiweddar.

Gan weithio gyda chartrefi gofal a phlant ysgol lleol, rydyn ni'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr drwy broject Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion. Rydyn ni hefyd yn datblygu ffyrdd o ddarparu gwell mynediad i'n manau a'n gwasanaethau, gan gynnwys trwy iaith Arwyddion Prydain (BSL). Roedd yr Ŵyl Fwyd eleni yn cynnwys gweithgareddau gan artistiaid B/byddar, a chyfieithwyr BSL ar y safle.

Yn olaf, ar ôl llawer o waith caled, agorodd Gwesty'r Vulcan ei ddrysau i'r cyhoedd ym mis Mai 2024 yn Sain Ffagan. Nawr gallwch chi ddod i ymweld ag un o dafarndai enwog Caerdydd sydd wedi'i hadfer i'w chyflwr fel yr oedd ym 1915.

SUPPORT WELL-BEING



We're developing our spaces and programmes to provide better access to people with diverse needs.

Amgueddfa Cymru is changing! The National Slate Museum in Llanberis will be transformed over the next few years, to better tell the story of the slate heritage of north Wales. This year we have been hearing what people and communities would like to see in the redevelopment.

The National Wool Museum won the Best Wool Community award at the inaugural Wool Eisteddfod in October 2023 and has been redeveloping the recently acquired Melin Teifi.

Working with care homes and local school children, we're supporting people living with dementia and their carers through the Museums Inspiring Memories project. We're also developing ways to deliver better access to our spaces and services, including through British Sign Language (BSL). This year's Food Festival included activities delivered by D/deaf artists, and on-site BSL interpreters.

Finally, after a lot of hard work, The Vulcan Hotel opened its doors to the public in May 2024 at St Fagans. You can now come and visit the famous Cardiff pub restored as it would have been in 1915.



Croesawon ni 457 o oen newydd ar yr Oen-o-Meter eleni!

We counted 457 births on our Lamb-o-Meter this year!

© Tom Powell



Malo Bampton, nith Hedd Wyn, yn pori drwy **Celf ar y Cyd** ac yn dod o hyd i ddelwedd o'r Ysgwrn gan Mary Lloyd Jones. Mae Malo yn cofio golygfeydd, synau ac arogleuon Yr Ysgwrn, y fferm lle cafodd hi a'i hewythr eu magu.

Malo Bampton, Hedd Wyn's niece, explores **Celf ar y Cyd** and finds an image of Yr Ysgwrn by Mary Lloyd Jones. Malo recalls the sights, sounds and smells of Yr Ysgwrn, the farm where she and her uncle were raised.

© Laurie Broughton

CREU PROFIADAU DIGIDOL

Mae profiadau digidol yn helpu i gynnig mwy o fynediad i'n casgliadau a'n manau nag erioed o'r blaen.

Lansiom ni wefan Celf ar y Cyd y llynedd, rhan o fenter Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan helpu i rannu'r casgliad celf cenedlaethol gyda mwy o bobl ledled Cymru.

Yn 2024 rydyn ni'n dathlu deng mlynedd o ffrydio'n fyw o'r siediau wyna yn Sain Ffagan! Os nad ydych chi wedi dod o hyd i #sgrinwyna eto, cofiwch ymuno â ni y gwanwyn nesaf.

Mae ein tudalennau gwe a'n tudalennau dysgu wedi cael eu hailwampio. Erbyn hyn gallwch chi weld straeon gweledol ar-lein o'n hamgueddfeydd i helpu grwpiau i baratoi ar gyfer ymweliad. Gallwch chi hefyd archwilio rhai o'n teithiau 360° gan gynnwys taith banorama o gwmpas Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn buddsoddi yn ein profiad tocynnu a'n profiad ar-lein, sy'n ei gwneud yn haws i chi ymuno â ni yn ein digwyddiadau a'n profiadau a darganfod mwy am yr hyn sydd gennym ni i'w gynnig.

CREATE DIGITAL EXPERIENCES



Digital experiences are helping to provide more access to our collections and spaces than ever before.

We launched the Celf ar y Cyd website last year – part of the National Contemporary Art Gallery for Wales initiative funded by Welsh Government, and in partnership with Arts Council Wales and National Library Wales, helping to share the national art collection with more people across Wales.

2024 celebrates the 10th year we've streamed live from the lambing sheds at St Fagans! If you haven't found #lambcam yet, then make sure you join us next spring.

Our webpages along with our learning pages have had a revamp. You can now access online visual stories of our museums to help groups to prepare for a visit. You can also explore some of our 360° tours including our National Roman Legion Museum panoramic tour.

We've also been investing in our ticketing and online experience, which is making it easier for you to join us at our events and experiences and find out more about what we have to offer.



Dangosiadau gwydr lliw ar ein stondin yn Sioe Frenhinol Cymru.

Stained glass demonstrations underway at our stand during the Royal Welsh Show.



Mae arddangosfa *Drych ar yr Hunlun* yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** i'w gweld tan fis Ionawr 2025.

Art of the Selfie at **National Museum Cardiff** runs until January 2025.

AR DRAWS Y BYD

Rydyn ni'n parhau i groesawu ymwelwyr o bob rhan o Gymru, y Deyrnas Unedig a gweddill y Byd.

Mae ein harddangosfa newydd gyffrous, *Drych ar yr Hunlun*, yn cynnwys *Portread o'r Artish* (1887) gan Van Gogh sydd ar fenthyg o'r Musée d'Orsay, Paris. O dan y bartneriaeth ryngwladol hon, dywedon ni 'au revoir' wrth *La Parisienne* gan Renoir, ond fe fydd hi'n ôl!

Rydyn ni wedi croesawu sawl ymweliad rhyngwladol, gan gynnwys yr Amgueddfa Celf Islamaidd, Qatar, Llysgennad Japan i'r Deyrnas Unedig a'r Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Tramor rhwng Partneriaethau a ddaeth â dirprwyaeth o Uganda i Sain Ffagan.

Mae ein hamgueddfeydd wedi cydweithio â phartneriaid ymchwil rhyngwladol o Amgueddfa Iziko De Affrica, Prifysgol Kathmandu yn Nepal ac Amgueddfa Genedlaethol Kenya. Mae gwaith cadwraeth hefyd wedi dechrau ar gasgliad gweithiau ar bapur Gwen John i baratoi ar gyfer yr arddangosfa fawr sydd ar y gweill yn 2026.

Cawson ni amser gwych yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, ac yn Sioe Frenhinol Cymru yn ennyn diddordeb ymwelwyr yn ein projectau cyffrous. Hon hefyd oedd ein hail flwyddyn yn Wythnos Cymru yn Llundain yn archwilio sut mae partneriaethau diwylliannol a chwaraeon yn helpu i adrodd hanes Cymru i'r byd.

ACROSS THE WORLD



We continue to welcome visitors from across Wales, the UK and the rest of the World.

Our exciting new exhibition *Art of the Selfie* features Van Gogh's *Portrait of the Artist* (1887) on loan from Musée d'Orsay, Paris. Under this international partnership, we said 'au revoir' to the National Museum Cardiff Renoir *La Parisienne*, but she will be back!

We've hosted several international visits, including the Museum of Islamic Art, Qatar, the Ambassador for Japan to the UK and the Partnerships Overseas Networking Trust who brought a delegation from Uganda to St Fagans.

Our museums have worked with international research partners from Iziko Museum South Africa, University of Kathmandu, Nepal and National Museum Kenya. Conservation work has also started on the Gwen John paper collection in the run up to the major exhibition planned for 2026.

We had a fantastic time at the Llŷn ac Eifionydd National Eisteddfod, and at the Royal Welsh Show engaging visitors with our exciting projects. This was also our second year at Wales Week in London exploring how culture and sports partnerships help tell the story of Wales to the world.



Disgrifiodd gwyddonwyr **Amgueddfa Cymru** rywogaeth newydd o fwydyn amrant, *Myxicola polychrome*. Cafodd y sbesimen hwn ei gasglu o Hafan Martin yn Sir Benfro, a'i staenio â gwyrdd methyl i amlygu ei nodweddion.

Amgueddfa Cymru scientists described a new species of eyelash worm, *Myxicola polychrome*. This specimen was collected from Martin's Haven in Pembrokeshire and was stained with methyl green to help highlight its features.



Wnaeth ein Tîm Archaeoleg dderbynodi celc o 14 ceiniog arian Rufeinig o Sir Fynwy, gan gynnwys dwy o deyrnasiad Magnus Maximus, neu Maccsen Wledig.

Our Archaeology Team accessioned a hoard of 14 Roman silver coins from Monmouthshire, including two from the reign of Magnus Maximus.

© Caffaelwyd o dan y Ddeddf Trysor 1996
© Acquired under the Treasure Act 1996

CYFLAWNI EIN GWAITH

Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni i gadw ein hamgueddfeydd yn agored a chroesawgar, ac i ofalu am ein casgliadau.

Mae ein cynlluniau'n helpu i gefnogi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn ymgorffori ffyrdd cynaliadwy o weithio er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i gefnogi pobl a chymunedau ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, lansiom ni ein cynllun Cymrodyr Ymchwil Anrhydeddus ar ei newydd wedd sy'n darparu cyfleoedd newydd ac amrywiol i bobl wneud ymchwil sy'n gysylltiedig â'n casgliadau a'n ffyrdd o weithio. Mae gennym ni hefyd nifer o bartneriaethau doethurol cydweithredol.

Mae gan Amgueddfa Cymru rôl gyfreithiol yn adrodd ar Drysor sy'n cael ei ganfod yng Nghymru. Mae ein curaduron archaeoleg a staff Cynllun Henebion Cludadwy Cymru yn darparu cyngor ac argymhellion i'r Crwneriaid ynghylch pa ddarganfyddiadau, a wneir bob blwyddyn gan aelodau'r cyhoedd, sy'n gymwys yn gyfreithiol fel Trysor. Cafwyd sawl datganiad arwyddocaol eleni, gan gynnwys celc Llantrisant Fawr.

Rydyn ni'n dal i gefnogi ein staff, gyda chyfleoedd i ddatblygu sgiliau, gan gynnwys sgiliau Cymraeg a BSL. Rydyn ni hefyd yn gwneud pethau'n haws i bobl o gefndiroedd amrywiol weithio gyda ni drwy gyfrwng gwell prosesau recriwtio.

DELIVERING OUR WORK

A huge amount of work goes on behind-the-scenes to keep our museums open and welcoming, and to care for our collections.

Our plans help to support the Well-being of Future Generations, and embed sustainable ways of working to ensure we continue to support people and communities across Wales.

During the year, we launched a re-developed Honorary Research Fellow scheme which provides new and diverse opportunities for people to carry out research related to our collections and ways of working. We also have several collaborative doctoral partnerships.

Amgueddfa Cymru has a legal role linked with the reporting of Treasure finds made in Wales. Our archaeology curators and Portable Antiquities Scheme Cymru staff provide advice and recommendations to Coroners on which finds, made each year by members of the public, legally qualify as Treasure. There have been several significant declarations this year, including the Llantrisant Fawr hoard.

We're continuing to support our staff, with opportunities to develop skills, including Welsh language and BSL. We're also making things easier for people from diverse backgrounds to work with us through our improved recruitment processes.



Digwyddiad Noddwyr Amgueddfa Cymru, yn cynnig golwg cyntaf ar arddangosfa *Artes Mundi 10* yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**.

Amgueddfa Cymru Patrons event offering a first look at the *Artes Mundi 10* exhibition at **National Museum Cardiff**.



Ein siop symudol yn barod i groesawu ymwelwyr yn yr **Eisteddfod Genedlaethol**.

Our mobile shop ready to welcome visitors at the **National Eisteddfod**.

CEFNOGWCH NI

Helpwch ni i ysbrydoli pawb trwy rannu stori Cymru.

Elusen ydyn ni, ac mae eich rhoddion, bach neu fawr, yn helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb.

Rydyn ni hefyd yn cael dyfarniadau a chyllid arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru, a sefydliadau a chyrff ariannu eraill. Mae'r rhain i gyd yn ein helpu i gyflawni projectau ar raddfa fawr ac i sicrhau eitemau newydd i gasgliad y genedl. Gyda chymorth parhaus, rydyn ni'n cyflawni projectau arwyddocaol gan gynnwys gwaith datgarboneiddio ar draws ein hamgueddfeydd a'n safleoedd, a chaffael Melin Teifi a Gwesty'r Vulcan.

Dyma ambell un yn unig o'r caffaeliadau diweddaraf:

In Love in Blood (2023) gan Mounira Al Solh – Gwobr Brynu Ymddiriedolaeth Derek Williams fel rhan o *Artes Mundi 10*.

Môrwelion, Garry Fabian Miller – Y Gronfa Gelf ac Ymddiriedolaeth Derek Williams, a gafodd eu harddangos am y tro cyntaf yn yr arddangosfa *Môrwelion*, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd y llynedd.

Blod (2022), Anya Paintsil – a gafodd ei gyflwyno gan y Gymdeithas Gelf Gyfoes gyda chymorth ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.



Cefnogwch ni | Amgueddfa Cymru

SUPPORT US

Help us inspire everyone through Wales' story.

We're a charity and your donations, however small or large, help us ensure Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to use.

We also receive significant awards and funding from Welsh Government, and other organisations and funding bodies. These all support us to deliver large-scale projects and help to acquire new objects for the nation's collection. With continued support we deliver significant projects including decarbonization works across our museums and sites, and the acquisition of Melin Teifi and the Vulcan Hotel.

Here are just a few of our most recent acquisitions:

In Love in Blood (2023) by Mounira Al Solh – The Derek Williams Trust Purchase Prize as part of *Artes Mundi 10*.

The Sea Horizon, Garry Fabian Miller – Art Fund and Derek Williams Trust, and shown for the first time in the exhibition, *Môrwelion / The Sea Horizon*, at National Museum Cardiff last year.

Blod (2022), Anya Paintsil – presented by the Contemporary Art Society with additional support from the Derek Williams Trust.



Support Us | Museum Wales



Dewch wyneb yn wyneb â deinosauriaid yn nigwyddiad Amgueddfa Dros Nos: Deinos yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.**

Get up close and personal with dinosaurs at our Museum Sleepover: Dinos event at **National Museum Cardiff.**



Noson o hwyl arswydus i'r teulu cyfan yn ein Nosweithiau Calan Gaeaf yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.**

FRIGHT-fully good family fun at our Halloween Nights events at **St Fagans National Museum of History.**

AR Y GWEILL YN 2024...

Mae cymaint i edrych ymlaen ato yn 2024. O ddigwyddiadau tymhorol ar draws ein holl amgueddfeydd, gan gynnwys Haf o Hwyl a'r Nadolig, i amrywiaeth o ddigwyddiadau arbennig ym mhob un o'n hamgueddfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys Nosweithiau Calan Gaeaf a'r Wyl Fwyd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru; y Wledd Fawr yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru; Dawnsio Dandiya yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; Amgueddfa dros Nos: Deinos a Datganiadau ar yr Organ yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Saturnalia yn Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru; Gŵyl Hwyl: Cyflwyniad i Waith Gof yn Amgueddfa Lechi Cymru a Nadolig yn yr Amgueddfa Wlân.

Cadwch lygad am y rhain...

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Drych ar yr Hunlun

Mawrth 2024 – Ionawr 2025

Y Cymoedd Mai – Tachwedd 2024

STREIC! 1984-1985

Hydref 2024 – Ebrill 2025

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

STREIC! 1984-1985

Mawrth 2024 – Mawrth 2025

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Hawlio Heddwch

Mawrth – Medi 2024

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Ar Frig y Don – RNLI Cymru 200

Mehefin 2024 – Mehefin 2025

Ein Lleisiau Ni Mawrth – Awst 2024

Amgueddfa Lechi Cymru

HAENAU gan Rhiannon Gwyn

Mai – Hydref 2024

COMING UP IN 2024...

There's so much to look forward to in 2024. From seasonal events across all our museums, including Haf o Hwyl and Christmas, to a range of special events at each of our museums. These include Halloween Nights and the Food Festival at St Fagans National Museum of History; the Big Feastival at Big Pit National Coal Museum; Dandiya Dancing at National Waterfront Museum; Museum Sleepover: Dinos and Organ Recitals at National Museum Cardiff; Saturnalia at National Roman Legion Museum; Gŵyl Hwyl: Introduction to Blacksmithing at National Slate Museum and Nadolig yn yr Amgueddfa Wlân at National Wool Museum.

Do look out for...

National Museum Cardiff

Art of the Selfie

March 2024 – January 2025

The Valleys May – November 2024

STREIC! 1984-1985 STRIKE!

October 2024 – April 2025

Big Pit National Coal Museum

STREIC! 1984-1985 STRIKE!

March 2024 – March 2025

St Fagans National Museum of History

Petitioning for Peace

March – September 2024

National Waterfront Museum

Making Waves – RNLI Cymru 200

June 2024 – June 2025

Ours To Tell March – August 2024

National Slate Museum

LAYERS by Rhiannon Gwyn

May – October 2024



Amgueddfa Wlân Cymru yn dathlu ennill gwobr Cymdeithas Wlân Orau yn yr Eisteddfod Wlân.

National Wool Museum celebrating Best Wool Community award at the Wool Eisteddfod.

Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi ymweld â ni, wedi ein cefnogi ni, neu wedi gweithio gyda ni eleni – mae eich cyfraniad wedi ein galluogi ni i gyflawni blwyddyn arall o lwyddiannau a gwaith gwyb, a'n helpu i baratoi ar gyfer dyfodol disglair.

A final diolch o galon to everyone who's visited, supported or worked with us this year – your contribution has made for another fantastic year of work and achievements whilst helping us to set the scene for an exciting future to come.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn fuan! Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am arddangosfeydd a digwyddiadau, ac i helpu i gynllunio eich ymweliad.

We hope to see you soon! Visit our website to find out about more exhibitions and events, and to help plan your visit.

Clawr blaen:

Gwesty'r Vulcan wedi'i ail-godi yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** a'i addurno fel yr oedd ym 1915. Agorodd Gwesty'r Vulcan i'r cyhoedd ar 11 Mai 2024.

Front Cover:

The Vulcan Hotel re-erected at **St Fagans National Museum of History** and displayed as it was in 1915. The Vulcan Hotel opened to the public on 11 May 2024.



Mae ein tîm o gadwraethwyr a pheirianwyr yn helpu i ofalu am ein casgliadau, o ffotograffau bregus i beiriannau 22 tunnell yn y **Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol**.

Our team of conservators and engineers help preserve our collections, ranging from delicate photographs to 22-tonne machines at the **National Collections Centre**.



Ymwelwyr yn paratoi i fynd ar daith danddaearol yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**.

Visitors prepare for an underground tour at **Big Pit National Coal Museum**.

AMGUEDDFA CYMRU



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhif elusen: 525774
Charity number: 525774